Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Adroddiad gan Gyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru

FSA 25/09/08 - Adroddiad gan Sian Bowsley

## 1. Crynodeb

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o waith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn bwrw golwg ar ein blaenoriaethau ar gyfer y misoedd nesaf.

1.2 Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- **asesu** effeithiolrwydd y gwaith yng Nghymru i gyflawni blaenoriaethau'r ASB
- **ystyried** sut mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol yr ASB
- **rhoi adborth** ar sut mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol yr ASB

## 2. Cyflwyniad

2.1 Yng Nghymru, mae gan yr ASB gyfrifoldebau polisi ac mae'n cyflawni swyddogaethau statudol ar draws pob agwedd ar ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, ac mae ganddi hefyd gylch gwaith polisi ychwanegol mewn perthynas â safonau cyfansoddiad a labelu bwyd. Mae hyn yn golygu cynghori a gwneud argymhellion ar newidiadau deddfwriaethol i bolisi bwyd a bwyd anifeiliaid i weinidogion Cymru.

2.2 Mae'r tîm o 66.3 (CALl) o bobl yn cyflawni swyddogaethau yn unol â blaenoriaethau sefydliadol yr ASB ar gyfer Cymru, fel y cytunwyd arnynt â gweinidogion Cymru yn ein llythyr ariannu blynyddol. O fewn y cyd-destun hwn, yng Nghymru mae'r ASB wedi ymgorffori egwyddorion dau fframwaith cyffredin y DU – mewn perthynas â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, a safonau cyfansoddiad a labelu bwyd.

2.3 Er bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cyllid ar gyfer swyddogaethau'r ASB yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, bydd y broses ar gyfer gosod cyllideb y flwyddyn nesaf yn cael ei chwblhau yn ddiweddarach yr hydref hwn.

## 3. Cynnydd mewn perthynas â'n blaenoriaethau yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf

3.1 Yn yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Cymru, tynnwyd sylw at bedwar maes gwaith â blaenoriaeth, sef: a) cefnogi gwaith awdurdodau lleol yng Nghymru; b) cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'n hymrwymiadau o dan gytundeb adran 83 mewn perthynas ag awdurdodiadau'r farchnad; c) cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ac ch) ymgysylltiad parhaus ledled Cymru â rhanddeiliaid allweddol.

3.2 Yn ogystal, cymeradwyodd y Bwrdd ein cynllun i fwrw ati i **adolygu'r Concordat**, sy'n nodi fframwaith ar gyfer cydweithredu rhwng yr ASB a Llywodraeth Cymru ac i **ymgysylltu'n llwyr â gwaith ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol posib**.

3.3 Dyma fy adroddiad cyntaf i'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr Cymru ers ymuno â'r ASB ym mis Hydref 2024, ac rwy'n falch o allu adrodd bod cynnydd wedi'i wneud ar draws yr holl feysydd hyn dros y cyfnod hwn, a bod cynllun gwaith uchelgeisiol ar ddod. Rydym wedi parhau i gryfhau ein rhwydwaith, ein hamlygrwydd a'n dylanwad o fewn Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod blaenoriaethau'r ASB yn ddealladwy ac yn cyd-fynd ag amcanion polisi datganoledig. Yn ogystal, rydym wedi parhau i hwyluso a chefnogi ymgysylltiad rhwng y Cadeirydd, gweinidogion Cymru ac Aelodau o'r Senedd, gan gynnwys Sarah Murphy AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a'r Dirprwy Brif Weinidog Huw Irranca-Davies.

**Cefnogi gwaith awdurdodau lleol yng Nghymru**

3.4 Rydym yn parhau i gefnogi gwaith awdurdodau lleol yng Nghymru, gan na fyddem yn gallu cyflawni ein cylch gwaith hebddynt. Dan nawdd **Cytundeb Cydweithredol 2023**, yr ydym yn gyd-lofnodwr iddo, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch rhwng y naill a'r llall, gan gydnabod gwerth a chyfreithlondeb rôl pob corff, sy'n cydbwyso dylunio a chynhyrchu ar y cyd ac ymgynghori.

3.5 Yn ogystal â'n gwaith ymgysylltu parhaus â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru (DPPW) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau targededig drwy gydol y flwyddyn ar feysydd blaenoriaeth allweddol. Rydym wedi cydweithio ag awdurdodau lleol i dreialu'r **Model Gweithredu Safonau Bwyd (FSDM)** a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r adroddiad gwerthuso yn gynharach eleni. Cadarnhaodd y gwerthusiad fod y model yn effeithiol, gan arwain at ei gynnwys yn yr ymgynghoriad diweddar ar **God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)**. Byddwn yn ceisio cymeradwyaeth weinidogol i fwrw ymlaen â newidiadau i'r Cod yn ddiweddarach yr hydref hwn ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, byddwn yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i gychwyn cyfnod pontio a dechrau gweithredu'r newidiadau erbyn diwedd y flwyddyn.

3.6 Yn rhan o'r **rhaglen archwilio awdurdodau lleol**, rydym wedi cwblhau naw archwiliad dros y flwyddyn ddiwethaf, gan asesu cynnydd yr awdurdodau lleol ar sail camau gweithredu a nodwyd yn flaenorol, a chynllunio a darparu eu gwasanaethau yn unol â'r gyfraith a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (FLCoP). Rydym hefyd wedi cychwyn rhaglen archwilio 2025/26 sy'n asesu cynnydd awdurdodau lleol ar sail camau gweithredu a nodwyd yn flaenorol a'u heffeithiolrwydd wrth weithredu rheolaethau bwyd swyddogol mewn perthynas ag alergenau.

3.7 Rydym hefyd yn monitro perfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n cael sylw ar wahân yn y **diweddariad ar berfformiad awdurdodau lleol**. Mae canfyddiadau'n dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan gudd-wybodaeth wrth flaenoriaethu ymyriadau ar draws pob categori o sefydliadau ar gyfer hylendid a safonau bwyd. Mae'r tîm yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol nad oes ganddynt yr adnoddau ar hyn o bryd i alinio'n llwyr â gofynion yr FLCoP er mwyn mynd ati i flaenoriaethu.

3.8 Fel rhan o’r **rhaglen samplu awdurdodau lleol yng Nghymru**, gwnaethom ddarparu cyllid ar gyfer 203 o samplau ar draws 17 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Datgelodd canfyddiadau’r gwaith samplu hwn broblemau allweddol o ran diffyg cydymffurfio, o frechdanau ham wedi’u labelu’n anghywir i ganfod llaeth mewn coffi ‘di-laeth’. Mae hyn wedi arwain at gamau gweithredu targededig, diweddaru canllawiau, ac ymwybyddiaeth ehangach yn y diwydiant trwy sianeli fel cylchlythyr yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ac Anaphylaxis UK. Rydym hefyd yn ystyried canllawiau pellach ar alergenau mewn perthynas â diodydd poeth o ganlyniad uniongyrchol i’r gwaith hwn.

3.9 Gan ddefnyddio’r gyllideb flynyddol a glustnodir gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi cytuno ar y **Rhaglen Gweithredu Bwyd Anifeiliaid ar gyfer 2025-26** gyda’r Gr?p Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y rhaglen hon o reolaethau swyddogol, gwaith samplu a hyfforddiant i awdurdodau lleol yn parhau tan ddiwedd mis Mawrth 2026. Ddiwedd y llynedd, roedd y rhaglen wedi sicrhau bod rheolaethau swyddogol wedi’u cynnal mewn safleoedd risg uwch yng Nghymru, a hynny ar lefel o 97.3%.

3.10 Rydym wedi lansio ffrwd waith newydd i archwilio **system gofrestru well** fel y gofynnwyd amdano gan weinidog Cymru yn y Cytundeb Cydweithredol. Er ein bod yn arwain y gwaith hwn, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth ein partneriaid allweddol yn Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd Cymru. Fel cam cyntaf, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol peilot i gasglu gwybodaeth a fydd yn darparu tystiolaeth (neu beidio) o’r angen i gryfhau’r broses gofrestru. Byddwn yn diweddaru’r Bwrdd yn rheolaidd cyn rhannu’r argymhellion terfynol â gweinidog Cymru yn y gwanwyn.

3.11 Mae sicrhau bod digon o adnoddau mewn awdurdodau lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i bob partner. Yn ogystal â phrosiect yr ASB ynghylch adnoddau awdurdodau lleol, y ceir amlinelliad ohono yn y **diweddariad ynghylch awdurdodau lleol**, yng Nghymru, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd Cymru i gyflawni’r argymhellion yn eu hadroddiad ar **Adeiladu ar gyfer y Dyfodol**. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â phartneriaid ehangach, gan gynnwys Mentera a Sgiliau Bwyd a Diod Cymru i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa o fewn y sector rheoleiddio bwyd.

3.12 Ym mis Mawrth a mis Gorffennaf eleni, cynhaliom **ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ag awdurdodau lleol Cymru** i lunio a llywio ein gwaith polisi. Roedd y sesiynau hyn yn cwmpasu diweddariadau ar y camau nesaf ar gyfer Rheoleiddio ar Lefel Genedlaethol (lle mae cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru wedi bod yn rhan o’r gr?p llywio); y Model Gweithredu Safonau Bwyd (FSDM) newydd a newidiadau ehangach yn yr ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer; ein cynigion cychwynnol ar adfer costau awdurdodau lleol, a chynnydd ar brosiect data’r awdurdodau lleol. Ceir cryn groeso i’r digwyddiadau hyn gan bartneriaid yn yr awdurdodau lleol, ac yn wir, mae’r digwyddiadau hyn yn caniatáu i ni wirio ein syniadau o ran polisi yn gynnar, yn ogystal â chlywed gan awdurdodau lleol am yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw ar lawr gwlad.

**Awdurdodiadau’r farchnad (cyflawni ein cytundeb adran 83)**

3.13 Mae’r tîm hefyd yn gweithio ar ddeddfwriaeth i sicrhau y gellir dod ag **Awdurdodiadau’r Farchnad ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig** i rym yng Nghymru. Mae pob un o’r 26 o geisiadau bwyd anifeiliaid Prydain Fawr wedi’u hawdurdodi yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf. Fel rhan o waith ehangach yr ASB i sicrhau bod y broses awdurdodi’n fwy effeithlon, gwnaethom gyflawni’r cam cyntaf o ddiwygio’r ddeddfwriaeth ar gyfer awdurdodiadau’r farchnad yng Nghymru yn llwyddiannus. Daeth y ddeddfwriaeth i rym ar 31 Mawrth 2025. Ar hyn o bryd, rydym yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu argymhellion ar gyfer 9 cais arall, ac rydym yn cefnogi ymgynghoriad a gafodd ei lansio’n ddiweddar ar **dri chais Canabidiol (CBD)**.

3.14 Gwnaethom geisio cytundeb gan weinidogion Cymru i ddynodi'r ASB fel yr Awdurdod Cymwys yng Nghymru i gynnal rheolaethau swyddogol, gan gynnwys gwiriadau dogfennol ac archwiliadau ar y safle, a hynny er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â safonau'r UE ar gyfer defnyddio **deunyddiau ac eitemau plastig wedi'u hailgylchu** y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd. Bydd hyn yn cynorthwyo busnesau'r DU sy'n dymuno allforio plastig 'safon bwyd' wedi'i ailgylchu i'r UE.

3.15 Ochr yn ochr â hyn, rydym yn bwrw ymlaen â gwaith gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau effeithlonrwydd yn y broses awdurdodi, gan barchu'r setliad datganoli.

### Cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru

3.16 Yn dilyn cyhoeddi **Bwyd o Bwys: Cymru**, sy'n nodi carreg filltir allweddol yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddull cydgysylltiedig, trawsbortffolio o ymdrin â pholisi bwyd, rydym yn parhau i gefnogi'r agenda strategol hon drwy helpu i lunio a chyflawni polisïau sy'n hyrwyddo iechyd y cyhoedd ac sy'n diogelu defnyddwyr. Gwnaeth ein tîm safonau gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo a lleoli bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr, ac ar fwyta'n iach mewn ysgolion. Rydym hefyd yn bartneriaid allweddol yn y gr?p iechyd a maeth newydd pum gwlad (gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon), sy'n anelu at sicrhau cyffredinedd ym maes polisi ar draws y DU ac Iwerddon.

3.17 Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth Bwyd Cymunedol**, sy'n hyrwyddo cynhyrchu bwyd lleol, diogeledd bwyd, a bwyta'n iach. Drwy sicrhau diogelwch a hylendid bwyd ar draws mentrau a arweinir gan gymunedau, a thrwy helpu cynhyrchwyr bach i fodloni safonau rheoleiddio, mae'r ASB yn cyfrannu at system fwyd fwy gwydn a chynaliadwy yng Nghymru. Mae'r ASB hefyd yn rhan o is-gr?p Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at Strategaeth Bwyd Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cryfhau cydweithio ymhellach ac yn sicrhau bod safbwyntiau Cymru yn cael eu hystyried.

### Ymgysylltiad parhaus ledled Cymru â rhanddeiliaid allweddol

3.18 Rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i **ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni ledled Cymru** i gryfhau perthnasoedd a chefnogi cydweithio. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau mawr fel Gwobrau Bwyd a Diod Cymru, Blas Cymru, a Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, lle gwnaethom hwyluso diwrnod llawn o ymgysylltu ar gyfer ein Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC). Gwnaethom hefyd gyflwyno yng nghynhadledd Cymdeithas Diogelu Bwyd y DU, a diweddaru rhanddeiliaid ar ein gwaith yng nghynhadledd y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig, gan gynnwys cefnogi gwobr i'r myfyriwr â'r canlyniadau gorau yn ei arholiadau safonau bwyd. Yn ddiweddar, gwnaethom hefyd roi cyflwyniad i Safonau Masnach Cymru, gan ddarparu gwybodaeth am y Model Gweithredu Safonau Bwyd, Gweithredu Bwyd Anifeiliaid, samplu a hyfforddiant i gynorthwyo gyda chynllunio busnes.

3.19 Mae gwaith yr ASB yng Nghymru hefyd yn cyd-fynd yn agos â nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a'r adroddiad cynnydd diweddaraf. Drwy ein hymrwymiad cyffredin o ran strategaethau atal ac o ran iechyd y cyhoedd, rydym yn falch o weithio ochr yn ochr â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gefnogi Cymru iachach, fwy cyfartal a chynaliadwy – yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Edrychwn ymlaen at barhau â'r cydweithredu pwysig hwn drwy gefnogi'r nodau bwyd a'r Strategaeth Bwyd

Cymunedol.

3.20 Ochr yn ochr â gweithio gyda chydweithwyr yn yr ASB ar waith ehangach ar **ddosbarthu ardaloedd cynhyrchu molysgiaid dwygragennog byw** (LBMs), eleni, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r ffermwyr cregyn gleision yn Afon Menai, Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfeydd Afon Menai, ac awdurdodau lleol i adolygu'r Arolwg ar Lanweithdra a dosbarthiad gwelyau yn y Fenai. Yn dilyn yr adolygiad hwn ac adborth gan y cynaeafwyr, diwygiwyd y parthau dosbarthedig i gyd-fynd yn well â'r ardaloedd tyfu a chynaeafu er mwyn sicrhau bod y pwyntiau monitro cynrychioliadol, a'r dosbarthiadau a ddyfarnwyd wedi hynny, yn adlewyrchu'n gywirach ansawdd y d?r lle cafodd y cregyn gleision i'w bwyta gan bobl eu cynaeafu. Cefnogodd y tîm hefyd archwiliad yr UE o'r rheolaethau ynghylch molysgiaid dwygragennog byw yn y DU.

3.21 Ym mis Ionawr eleni, cafodd **adolygiad o'r ASB yng Nghymru**, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Mehefin 2021, ei lansio gan Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n canolbwyntio ar gylch gwaith polisi'r ASB, yn ogystal â materion o ran llywodraethiant ac atebolrwydd yr ASB, ac fe'i cynhaliwyd mewn dau gam – sef, adolygiad bwrdd gwaith a cham cyfweld, a oedd yn cynnwys siarad â nifer o randdeiliaid yng Nghymru, yn ogystal â staff yr ASB, y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a Chadeirydd WFAC. Mae'r adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr hydref hwn, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan weinidog Cymru, a disgwylir iddo gynnig cyfres o argymhellion ar gyfer ffyrdd o weithio rhwng yr ASB a Llywodraeth Cymru. Ar ôl ei gyhoeddi, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid allweddol i fwrw ymlaen ag unrhyw gamau gweithredu.

# 4. Cyflawni blaenoriaethau corfforaethol ehangach yr ASB yng Nghymru

4.1 Ochr yn ochr â gwaith ar feysydd sy'n benodol i Gymru, mae tîm yr ASB yng Nghymru yn cyfrannu at flaenoriaethau a rhaglenni ehangach yr ASB, ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

4.2 Ers mis Gorffennaf 2024, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio i gryfhau cydweithrediad â'r UE, gan gynnwys archwilio **cytundeb iechydol a ffytoiechydol (SPS)** posib â'r nod o leihau costau a biwrocratiaeth ar gyfer symudiadau bwyd-amaeth rhwng Prydain Fawr, yr UE, a Gogledd Iwerddon. Yng Nghymru, rydym wedi cefnogi ymgysylltiad gweithredol ar draws y llywodraeth i asesu a chynghori ar y goblygiadau y gallai unrhyw gytundeb SPS arfaethedig gyda'r UE eu cael ar iechyd y cyhoedd.

4.3 Yng nghyd-destun cytundeb SPS posib, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ei phenderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â **Safleoedd Rheoli Ffin ar Arfordir y Gorllewin**. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Defra a Llywodraeth Cymru i sicrhau cydgysylltu parhaus o ran pwyntiau mynediad ar arfordir y Gorllewin, sy'n cynnwys adolygu sut mae gweinyddiaethau'r DU ac asiantaethau eraill yn cydweithio, a nodi cyfleoedd i gryfhau rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd.

4.4 O ran **bridio manwl**, wrth gydweithredu â chydweithwyr ar draws yr ASB a Llywodraeth Cymru, rydym wedi datblygu canllawiau gorfodi cenedl-benodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydym yn bwriadu rhannu'r rhain er mwyn cael adborth arnynt, ac yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyhoeddi'r canllawiau penodol i Gymru bedair wythnos cyn i'r Rheoliadau Bridio Manwl ddod i rym yn Lloegr ym mis Tachwedd.

4.5 Gwnaethom gefnogi'r **adolygiad o gynllun disgownt yr ASB ar gyfer safleoedd cig**, gan gynnal sesiwn i randdeiliaid yn gynharach eleni i glywed yn uniongyrchol gan ddiwydiant cig Cymru. Gan nodi penderfyniad y Bwrdd ym mis Mehefin i barhau â'r cynllun, ond gan anelu'r

gefnogaeth at fusnesau llai a chanolig, byddwn nawr yn ymgysylltu o’r newydd â Llywodraeth Cymru a’r diwydiant ar y gwaith hwn. Yn ogystal, byddwn yn parhau i weithio gyda gweithgor y diwydiant **cig defaid â’r croen ynghlwm** wrth iddynt fwrw ymlaen â’u hymdrechion i gasglu tystiolaeth er mwyn llywio cynnig ar gyfer cyfreithloni cig defaid â’r croen ynghlwm yn y DU.

4.6 Mae’r tîm yng Nghymru wedi parhau i gydweithio ar ffrydiau gwaith ym maes polisi safonau bwyd. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ddatblygu **canllawiau arferion gorau ar wybodaeth am alergenau** ar gyfer busnesau bwyd y tu allan i’r cartref, a gosod rheoliadau bara a blawd yn y Senedd, yn unol â newidiadau ledled y DU, gan gyflawni nod iechyd cyhoeddus hirhoedlog o orfodi ychwanegu asid ffolig at flawd, gyda’r bwriad o leihau diffygion y tiwbiau niwral yn gynnar yn ystod beichiogrwydd.

4.7 Cafodd gwaith y **tîm diogelu defnyddwyr yng Nghymru** ei grynhoi yn yr adroddiad blynyddol ar ddigwyddiadau a gwydnwch ar gyfer 2024/25, a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin. Roedd y tîm yn rhan uniongyrchol o 132 o ddigwyddiadau a adroddwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn (i lawr o 156 yn ystod y flwyddyn flaenorol), ac roeddent yn rhan weithredol o 22 o frigiadau o achosion, gyda thri ohonynt yn cael eu harwain yng Nghymru. Er bod nifer y digwyddiadau’n is, bu cynnydd yn y nifer sy’n galw am ymchwiliadau aml-asiantaeth neu, fel arall, bu digwyddiadau cymhleth ar raddfa genedlaethol, gan arwain at ddulliau mwy cydweithredol.

4.8 Fel yr arweinydd ar atchwanegiadau ar draws yr ASB, aeth y tîm ati’n ddiweddar i **adolygu a diweddaru’r canllawiau caffein** ar gyfer busnesau a gyhoeddwyd yn flaenorol ym mis Medi 2024. Gwnaed hyn yn sgil arolwg samplu dan arweiniad yr ASB ar atchwanegiadau bwyd caffein a amlygodd gyfradd methu o 83%, gan gynnwys problemau labelu. Nod ein diweddariadau oedd rhoi mwy o eglurder i fusnesau er mwyn eu helpu i gydymffurfio â’r gyfraith, a rhoesom wybod i awdurdodau lleol am ganlyniadau samplu aflwyddiannus er mwyn iddynt gynnal gwaith dilynol.

**Ymrwymiadau o ran y Gymraeg**

4.9 Fel rhan o’n hymrwymiad a’n cyfrifoldebau parhaus o dan y Cynllun Iaith Gymraeg, rydym yn parhau i ddarparu dewis iaith rhagweithiol a **gwasanaeth dwyieithog i’n defnyddwyr yng Nghymru**, gan gynnwys ar draws ein llwyfannau digidol ac wrth rannu gwybodaeth a chanllawiau â rhanddeiliaid. Wedi i ni gyflwyno ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar gynnydd ein gwasanaethau, cawsom adborth cadarnhaol dros ben gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch ansawdd ein harferion. Ers hynny, rydym wedi manteisio ar gyfleoedd i rannu’r arferion gorau hyn â sefydliadau eraill, gan gynnwys Rhwydwaith y Rheoleiddwyr yng Nghymru.

4.10 Wrth ddarparu ein gwasanaeth dwyieithog, rhan allweddol ohono yw rhannu **amrywiaeth o ymgyrchoedd** i helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a chefnogi dewisiadau gwybodus gan ddefnyddwyr. O godi ymwybyddiaeth o ymddygiadau peryglus yn y gegin i gyhoeddi cyngor diogelwch ar glyserol mewn diodydd iâ slwsh (neu ‘slushies’), rydym wedi gweithio’n agos gydag awdurdodau lleol Cymru, Llywodraeth Cymru, llwyfannau cyfryngau Cymru, a phartneriaid allweddol i sicrhau bod ein negeseuon wedi’u teilwra a’u rhannu’n helaeth. Yn ogystal, mae cynnwys targededig yn y cyfryngau traddodiadol ac ar y cyfryngau cymdeithasol – yn enwedig gyda llwyfannau Cymraeg fel Prynhawn Da, Golwg a Bore Cothi – wedi ein helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ledled Cymru.

4.11 Yn fwyaf diweddar, gwnaethom gefnogi’r gwaith o gyhoeddi a lansio **Ein Bwyd**, sef yr adroddiad blynyddol ar safonau bwyd a gynhyrchwn ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys gosod yr adroddiad dwyieithog yn y Senedd a’i rannu â rhanddeiliaid. Gwnaethom nodi’r lansiad gyda derbyniad seneddol, gan ddathlu 25 mlynedd o’r ASB a thynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio wrth ddiogelu iechyd y cyhoedd ochr yn ochr â’n Cadeirydd, y Dirprwy Brif Weinidog a rhai o’n rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

4.12 Cefnogwyd gwaith allgymorth cyhoeddus ymhellach yn yr **Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam**, lle gwnaethom hyrwyddo diogelwch bwyd ac ymgysylltu â defnyddwyr i rannu negeseuon allweddol ynghylch diogelwch bwyd. Mae'r gweithgareddau hyn wedi atgyfnerthu ein gwelededd, cryfhau partneriaethau, ac wedi amlygu cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

# 5. Edrych tua'r dyfodol

5.1 Mae'r ASB yn bwriadu gweithio ar nifer o flaenoriaethau yng Nghymru yn ystod y chwech i 12 mis nesaf, yn ogystal â pharhau i weithio ar y meysydd hynny a nodir uchod. Yn allweddol i'n holl waith fydd cryfhau ein perthynas â'n partneriaid cyflenwi, a hynny drwy ein hymgysylltiad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru ac awdurdodau lleol unigol. Yn ogystal, bydd y tîm yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

5.2 Unwaith y bydd yr argymhellion terfynol wedi'u cyhoeddi ar sail yr **Adolygiad o'r ASB**, byddwn yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid i'w rhoi ar waith.

5.3 Bydd **etholiad nesaf y Senedd** ym mis Mai 2026 yn nodi newid sylweddol yng nghynrychiolaeth seneddol Cymru, gyda system newydd yn cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd (ASau) o 60 i 96. I baratoi, rydym yn parhau i gryfhau ein hymgysylltiad rhagweithiol ag ASau wrth i ni agosáu at yr etholiad, gan sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru. Rydym wedi cynllunio sesiynau ymgysylltu yn Y Farchnad yn y Senedd, a nod y rhain fydd sicrhau bod diogelwch a safonau bwyd yn parhau i fod yn rhan weladwy a dealladwy o'r dirwedd bolisi yng Nghymru.

5.4 Byddwn yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r gr?p polisi bwyd trawslywodraethol i gyflawni eu **hagenda fwyd strategol**, gan gynnwys Bwyd o Bwys a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Byddwn yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisïau sy'n hyrwyddo iechyd y cyhoedd, yn diogelu defnyddwyr, ac yn cryfhau systemau bwyd ledled Cymru a'r DU. Bydd ein gwaith hefyd yn cyd-fynd â'r argymhellion a nodir yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan helpu i hyrwyddo gwelliannau cynaliadwy hirdymor mewn polisi bwyd, a hynny trwy gydweithio, gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chynnal gwaith cydgysylltiedig ar draws llywodraethau a sectorau.

5.5 Bydd ein **hymgyrchoedd ymwybyddiaeth dwyieithog** yn parhau drwy gydol y flwyddyn nesaf, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol yng Nghymru i ehangu ein cyrhaeddiad a'r argraff a wnawn ar gynulleidfaoedd. Bydd ein hymgyrch i ddefnyddwyr ar hylendid bwyd yn cynnig cyngor ymarferol ar ddiogelwch bwyd yn y cartref, tra bydd yr ymgyrch 'Mae bwyd mwy diogel yn golygu busnes gwell' yn cefnogi busnesau bwyd wrth gynnal safonau uchel o ran hylendid a diogelwch.

5.6 Dros y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda **Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)** er mwyn datblygu modiwl Cynllunio a Pharatoi Bwyd o fewn cyfres o Gymwysterau Cenedlaethol newydd i Gymru. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn pecyn sgiliau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, gan bwysleisio pwysigrwydd sgiliau ymarferol, a byddwn yn cyfrannu at adrannau ynghylch paratoi bwyd yn ddiogel, alergenau, labelu bwyd a gwastraff bwyd. Yn ogystal, mae CBAC wedi cysylltu â ni ers hynny i gydweithio ar Dystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd mewn Lletygarwch ac Arlwyo, a byddwn yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor i'w datblygu.

5.7 Bwriad y **rhaglen archwiliadau â ffocws o awdurdodau lleol ar gyfer 2025/26** yw asesu pa mor effeithiol y caiff rheolaethau bwyd swyddogol sy'n ymwneud ag alergenau eu rhoi ar waith yng Nghymru.

5.8 Yn dilyn **Uwchgynhadledd gyntaf y DU a'r UE** ym mis Mai, a chyhoeddi'r ddogfen dealltwriaeth gyffredin, rydym wedi bod yn cyfrannu at raglen SPS ehangach yr ASB, gan gynnwys ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddeall yr effeithiau posib o fewn cyd-destun

datganoledig. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys adolygu strwythur yr ASB yng Nghymru i gyd-fynd â'r rhaglen ehangach ac asesu'r goblygiadau y gall cytundeb SPS gyda'r UE eu cael ar iechyd y cyhoedd.

# 6. Casgliadau

6.1 Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r gwaith sydd wedi'i wneud ers y diweddariad diwethaf i'r Bwrdd ym mis Medi 2024, yn ogystal â blaenoriaethau presennol a rhai'r dyfodol ar gyfer tîm yr ASB yng Nghymru.

6.2 At ei gilydd, gofynnir i'r Bwrdd:

- **asesu** effeithiolrwydd gwaith yng Nghymru i gyflawni blaenoriaethau'r ASB
- **ystyried** sut mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol yr ASB
- **rhoi adborth** ar y blaenoriaethau a nodwyd